OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 3240

# Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel (Apelau) (Cymru) 2004

**Y weithdrefn mewn gwrandawiad**

**17.**—(1) Oni ddarperir fel arall yn y Rheoliadau hyn, caiff y person penodedig benderfynu'r weithdrefn mewn gwrandawiad.

(2) Mae gwrandawiad i fod ar ffurf trafodaeth sy'n cael ei llywio gan y person penodedig ac ni ddylid caniatáu croesholi onid yw'r person penodedig yn credu ei fod yn angenrheidiol i sicrhau archwiliad priodol o'r pynciau sy'n berthnasol i'r apêl.

(3) Ar ddechrau'r gwrandawiad, rhaid i'r person penodedig nodi'r pynciau y mae'n ymddangos i'r person penodedig mai hwy yw'r prif bynciau i'w hystyried yn y gwrandawiad ac unrhyw faterion y mae angen i'r person penodedig gael esboniad pellach arnynt gan unrhyw berson a chanddo hawl neu ganiatâd i gymryd rhan.

(4) Nid oes dim ym mharagraff (3) i atal unrhyw berson sydd â hawl neu ganiatâd i gymryd rhan yn y gwrandawiad rhag cyfeirio at bynciau y mae'n barnu eu bod yn berthnasol ar gyfer ystyried yr apêl ond nad oeddent yn bynciau a nodwyd gan y person penodedig yn unol â'r paragraff hwnnw.

(5) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y rheoliad hwn, caiff person sydd â hawl i gymryd rhan mewn gwrandawiad, alw tystiolaeth ond, fel arall, bydd galw tystiolaeth yn dibynnu ar ddisgresiwn y person penodedig.

(6) Caiff y person penodedig wrthod caniatáu i dystiolaeth lafar gael ei rhoi neu i unrhyw fater arall y mae'r person penodedig yn barnu ei fod yn amherthnasol neu'n ailadroddus, gael ei gyflwyno ond, os bydd y person penodedig yn gwrthod caniatáu i dystiolaeth lafar gael ei rhoi, caiff y person sy'n dymuno rhoi'r dystiolaeth gyflwyno unrhyw dystiolaeth neu fater arall yn ysgrifenedig i'r person penodedig cyn diwedd y gwrandawiad.

(7) Caiff y person penodedig—

(a) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n bresennol mewn gwrandawiad neu sy'n cymryd rhan ynddo ac sydd, ym marn y person penodedig, yn ymddwyn mewn modd aflonyddgar, ymadael; a

(b) gwrthod caniatáu i'r person hwnnw ddychwelyd neu ddim ond caniatáu i'r person hwnnw ddychwelyd o dan yr amodau a bennir gan y person penodedig,

ond caiff unrhyw berson o'r fath gyflwyno unrhyw dystiolaeth neu fater arall yn ysgrifenedig i'r person penodedig cyn diwedd y gwrandawiad.

(8) Caiff y person penodedig ganiatáu i unrhyw berson newid datganiad neu ychwanegu ato i'r graddau y bo hynny'n angenrheidiol at ddibenion y gwrandawiad, ond rhaid i'r person penodedig (drwy ohirio'r gwrandawiad os bydd angen) roi cyfle digonol i bob person arall sydd â hawl i gymryd rhan yn y gwrandawiad, ac sydd mewn gwirionedd yn cymryd rhan ynddo, ystyried unrhyw fater newydd neu ddogfen newydd.

(9) Caiff y person penodedig fwrw ymlaen â gwrandawiad yn absenoldeb unrhyw berson a chanddo hawl neu ganiatâd i gymryd rhan ynddo.

(10) Caiff y person penodedig gymryd i ystyriaeth unrhyw sylw neu dystiolaeth ysgrifenedig neu unrhyw ddogfen ysgrifenedig arall a ddaeth i law'r person penodedig oddi wrth unrhyw berson cyn dechrau'r gwrandawiad neu yn ystod y gwrandawiad ar yr amod bod y person penodedig yn eu datgelu yn y gwrandawiad.

(11) Caiff y person penodedig o dro i dro ohirio gwrandawiad ac, os cyhoeddir dyddiad, amser a lle'r gwrandawiad gohiriedig yn y gwrandawiad cyn y gohiriad, ni fydd yn ofynnol cael unrhyw hysbysiad pellach.